Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

**Landsker Education**
**Sir Benfro**
**Y Deyrnas Unedig**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Landsker Child Care yn cynnig pecyn gofal preswyl ac addysg integredig i ddisgyblion 'sy'n derbyn gofal' ac sydd â heriau yn eu dysgu. Mae gan y disgyblion amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau dysgu cymedrol. Mae 22 o leoedd preswyl wedi'u lledaenu ar draws chwe chartref plant ar wahân y sefydliad. Mae tri o'r cartrefi hyn yng nghefn gwlad Sir Benfro, dau yn ardal Castell-nedd Port Talbot ac un ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn yn dymhorol ym mhob un o'r cartrefi plant. Ar adeg yr arolygiad, roedd 17 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae un dosbarth ym mhob cartref. Mae maint y dosbarthiadau yn amrywio o un i bedwar disgybl. Mae chwe athro amser llawn, bob un ohonynt â statws athro cymwysedig. Mae athro allweddol ym mhob dosbarth ar gyfer tridiau o'r amserlen. Mae athrawon yn cymryd eu tro yn nosbarthiadau'r ysgol ar gyfer y deuddydd arall i rannu eu harbenigedd, a chynnig newid mewn staff ac amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion. Mae Landsker hefyd yn cynorthwyo'r bobl ifanc eraill sy'n preswylio yn y cartrefi i'w galluogi i fynychu darpariaeth addysg brif ffrwd leol.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r ddarpariaeth addysg a'r safonau ar draws y chwe dosbarth. Mae hi'n ymweld â phob dosbarth o leiaf ddwywaith bob hanner tymor i gynnal asesiadau o ddisgyblion, monitro eu cynnydd a mynychu eu cyfarfodydd adolygu. Mae staff addysgu'n cyfarfod yn ffurfiol ddwywaith bob tymor ond maent yn cyfathrebu'n electronig â'i gilydd yn rheolaidd.

Mae'r ysgol wedi ceisio ac wedi derbyn cyllid ychwanegol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion gan bedwar o'r chwe awdurdod lleoli, i wella'r deilliannau i'w dysgwyr difreintiedig.

Yn ystod yr arolygiad hwn, ymwelodd y tîm â dosbarthiadau mewn tri o gartrefi plant Landsker.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae Landsker yn parhau i gynnig addysg o ansawdd uchel i'w ddisgyblion
- Mae ffocws clir ar gyflawniad academaidd disgyblion, lle caiff y ddarpariaeth ei theilwra'n briodol i fodloni anghenion disgyblion unigol
- Mae'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf gydag amser yn eu gwaith, eu hymddygiad a'u presenoldeb, o bwynt cychwyn isel yn aml
- Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gwersi sy'n ysgogi diddordeb disgyblion ac yn eu helpu i ymroi i ddysgu
- Mae cydweithredu clir ar draws y dosbarthiadau, sy'n sicrhau dull cyson o

weithredu arferion yr ysgol, er enghraifft y pedair rheol ymddygiad da a gytunwyd gan y cyngor ysgol

- Mae pob disgybl yn cael cyfleoedd priodol i ennill cymwysterau mewn amrywiaeth o gyrsiau wedi'u hachredu
- Mae'r pennaeth yn monitro gwaith yr ysgol yn dda trwy ymweliadau ffurfiol â'r dosbarth ym mhob cartref plant, craffu ar waith disgyblion ac arsylwi gwersi
- Mae staff yn cysylltu'n effeithiol ag uwch reolwyr a'i gilydd trwy ddarpariaeth mewnrwyd yr ysgol
- Defnyddir cyllid y grant amddifadedd disgyblion yn briodol i sicrhau bod y disgyblion dan sylw'n gallu manteisio ar adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sy'n gwella'u cyfleoedd dysgu
- Mae diwylliant yn datblygu o staff yn rhannu eu harbenigedd, er enghraifft i hybu dull cyffredin ac arfer dda mewn cynllunio gwersi ac arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Mae polisi'r ysgol ar ymweliadau addysgol yn rhoi gwybodaeth glir ynghylch asesu risg gweithgareddau. Mae staff yn llenwi ffurflen asesu risg digon manwl ar gyfer ymweliadau a digwyddiadau ysgol, ac anfonir y ffurflen at y pennaeth i'w chymeradwyo. Cedwir copïau o'r cofnodion hyn yn ganolog yn y brif swyddfa. Fodd bynnag, yn y cartrefi, caiff copïau eu ffeilio ynghyd â ffurflenni asesu risg gwahanol a baratoir gan y staff gofal ar gyfer gweithgareddau tu allan i'r ysgol. Nid yw'r ffeiliau hyn bob amser yn dweud yn ddigon clir pwy sydd wedi caniatáu'r ymweliad ysgol, gan nad yw'r copïau a gedwir yn y cartrefi wedi'u llofnodi bob amser.
- Mae gan yr ysgol bolisi ar weithio unigol ac mae'n cynnal asesiadau i leihau risg. Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r ysgol bob amser yn rhoi digon o ystyriaeth i natur fregus disgyblion ac athrawon mewn gwersi un i un.
- Mae'r pennaeth yn cynnal arsylwadau gwersi bob tymor. Mae'n cofnodi ei chanfyddiadau'n ofalus ac yn rhannu'r deilliannau gyda'r staff perthnasol. Fodd bynnag, er bod yr arsylwadau hyn yn canolbwyntio'n dda ar wella strategaethau addysgu, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau disgyblion.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Tynhau'r system asesu risg ar gyfer ymweliadau ysgol trwy sicrhau bod ffurflenni wedi'u llenwi a'u llofnodi gan yr unigolyn sy'n gyfrifol

A2 Lleihau'r risgiau i ddisgyblion ac athrawon sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd un i un yn ystod amser gwersi strwythuredig

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Parhau i ddatblygu system ar gyfer monitro ac arfarnu'r defnydd ar TGCh ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi blaenoriaethu TGCh yng nghynllun datblygu'r ysgol. Maent wedi cyflwyno system olrhain ar-lein briodol i fonitro cynnydd disgyblion wrth ddefnyddio TGCh mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn gosod targedau TGCh bob hanner tymor ar gyfer disgyblion unigol ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer TGCh yn eu cynllunio. Mae'r pennaeth yn monitro ac yn arfarnu gwaith yr ysgol mewn TGCh trwy graffu ar waith ac arsylwi ar wersi.

Mae adnoddau da gan yr ysgol ar gyfer TGCh. Yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, mae disgyblion yn dangos medrau da o ran gwneud ffilmiau a defnyddio llechi ar gyfer ymchwil. Gwnânt ddefnydd effeithiol o recordio fideos i wella'u ffordd o gyflwyno araith ddarbwyllol.

**Argymhelliad 2: Gwella prosesau hunanarfarnu i gynnwys mwy o bwyslais ar safonau cyflawniad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o weithdrefnau asesu priodol i fonitro cynnydd disgyblion gydag amser. Mae'r rhain yn cynnwys profion darllen, sillafu a rhifedd. Mae staff yn gwneud defnydd da o system olrhain ar-lein i gasglu gwybodaeth am gyrhaeddiad, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r data hwn yn effeithiol i gynllunio targedau i wella safonau a lles disgyblion. Mae hunanarfarniad yr ysgol hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i gyrhaeddiad disgyblion mewn arholiadau allanol.

**Argymhelliad 3: Rhoi adborth ysgrifenedig i'r staff ar ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddeilliannau disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r pennaeth wedi gweithredu cylch rheolaidd o arsylwadau gwersi fel rhan o raglen i godi safon yr addysgu o dda i ragorol. Mewn adroddiadau arsylwadau gwersi, mae hi'n nodi'r nodweddion da a'r meysydd i'w gwella yn glir. Mae'r rhain yn cynnwys ystod ac ansawdd y dulliau addysgu, ac asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu. Er bod safonau disgyblion yn cael eu monitro'n rheolaidd ar system olrhain electronig, nid yw'r effaith ar safonau disgyblion wedi'i chynnwys ar y ffurflenni arsylwi gwersi i roi arweiniad mwy penodol i athrawon ar wella fesul gwers.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Landsker Education |
| **Rhif yr ysgol** | 6686016 |
| **Diben yr ymweliad** | Adroddiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 02/02/2015 |
| **Perchennog** | Landsker Child Care |
| **Staff** | 6 athro. Defnydd achlysurol ar weithwyr gofal preswyl fel Cynorthwywyr Cymorth Dysgu |
| **Nifer y disgyblion** | Cyfanswm o 17, yr oedd 8 ohonynt yn mynychu'r dosbarthiadau a arolygwyd |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd yn gysylltiedig â chartrefi plant y cwmni |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a/neu anawsterau dysgu cymedrol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/11/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/12/2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/08/2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Rosemary Lait | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |